

Adroddiad i'r	Cyfarfod Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod	28 Tachwedd 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol	Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
Awdur yr Adroddiad	Emma Horan, Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol
Teitl	Adolygiad y Gofrestr Risg Gorfforaethol, Medi 2019

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Diweddariad ar adolygiad y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Canllaw Rheoli Risg.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 I ddiweddarau'r Pwyllgor ar yr adroddiad diweddaraf o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Canllaw Rheoli Risg diwygiedig, sydd bellach yn cynnwys Datganiad Awch am Risg.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried y diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Canllaw Rheoli Risg.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Adolygiad y Gofrestr Risg Gorfforaethol

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 1) yn galluogi'r cyngor i reoli tebygrwydd ac effaith y risgiau y mae'n eu hwynebu drwy werthuso effaith unrhyw gamau lliniaru cyfredol, a chofnodi dyddiadau cau a chyfrifoldebau am gamau pellach a ddylai alluogi rheolaeth dynnach.

4.2 Yn dilyn newidiadau diweddar, datblygir ac erbyn hyn perchnogir y Gofrestr Risg Gorfforaethol gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ochr yn ochr â'r Cabinet. Fe'i adolygir yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn y Briff Cabinet, ond yn aml fe'i drafodir yn anffurfiol y tu allan i'r amserlen adolygu ffurfiol gan Swyddogion ac Aelodau.

4.3 Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol, cyflwynir y gofrestr ddiwygiedig i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac fe'i rhennir gyda Llywodraethu Corfforaethol. Rhennir hefyd gydag ein Pennaeth Archwilio Mewnol a swyddog arweiniol Swyddfa Archwilio Cymru.

4.4 Yn ystod yr adolygiad diweddaraf hwn – a gynhaliwyd ym mis Medi 2019 – bu nifer o ddiwygiadau; gyda rhai risgiau'n cael eu cynyddu a rhai eraill yn cael eu lleihau. Nodir y newidiadau yma i gyd yn atodiad 2. I grynhoi:

- Mae dwy risg newydd mewn perthynas â:
 - Yr Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Ddeddf Tribiwnlys Addysg
 - Clefyd Coed Ynn
- Argymhellodd Archwilio Mewnol gynnwys y risg mewn perthynas â iawndal am brynu gorfodol Cyn Ysbyty Gogledd Cymru. Fodd bynnag, cytunodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet (yn y Briff Cabinet) nad oedd y risg yn bodloni'r meini prawf i'w reoli ar lefel corfforaethol (yn unol â'n Canllaw Rheoli Risg) ac y dylai barhau i gael ei reoli ar lefel prosiect / gwasanaeth nes bydd y risg o bosib angen ei gynyddu.
- Mae rhai Aelodau / Swyddogion arweiniol wedi newid i adlewyrchu newidiadau personél / portffolio.
- Mae gennym un risg sydd yn cynyddu:
 - 00006 (y risg y bydd yr hinsawdd economaidd a chyllidol yn gwaethygu'n fwy na'r disgwyl): Risg sy'n weddill wedi cynyddu o C3 - Melyn i C2 - Oren (mae'r effaith wedi cynyddu oherwydd pwysau cyfunol gofal cymdeithasol, gwastraff, budd-daliadau a chodiadau cyflog chwyddiannol).
- Mae gennym ddwy risg sydd yn lleihau:
 - 00031 (risg twyll a llygredd): Mae'r risg gynhenid wedi lleihau o B2 - Coch i C2 - Oren (llai tebygol)
 - 00035 (y risg y bydd yr elw ar fuddsoddiad o'r Fargen Twf Rhanbarthol yn anghymesur): Mae'r sgoriau cynhenid a gweddillol wedi lleihau o C1 - Coch i C2 - Oren (llai o effaith)

4.5 Canllaw Rheoli Risg a Datganiad Awch am Risg

Cynhaliwyd Adolygiad Archwilio Mewnol rheoli risg ym mis Tachwedd 2018. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod rheolaeth risg Sir Ddinbych yn "gadarn gyda phrosesau da ar waith". Fodd bynnag, canfuwyd yr Adolygiad Archwilio Mewnol fod diffyg yn y Canllaw (sydd yn amlinellu ein dull ar gyfer risg yn y cyngor) o ran awch am risg.

4.6 Diffinnir awch am risg fel "lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef neu ei derbyn fel Cyngor wrth gyflawni ein hamcanion strategol tymor hir". Mae penderfynu a mynegi ein hawch am risg yn caniatáu i ni ystyried pob opsiwn i ymateb i risg a gwneud penderfyniadau gwybodus sydd fwyaf tebygol o arwain at ganlyniad llwyddiannus, tra hefyd yn darparu lefel dderbyniol o werth am arian.

4.7 Yn dilyn casgliadau'r Adolygiad, rydym wedi cynnal ystod o ymchwil ac ymgysylltiad, gan gynnwys gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac yn y Briff Cabinet, i ddatblygu ymagwedd awch am risg sy'n gymesur ac yn ymarferol. Mae'r ymagwedd rydym wedi ei datblygu yn seiliedig ar gymhwyso'r awch am risg mewn meysydd eraill a chan sefydliadau eraill. Rydym hefyd wedi ceisio cyngor gan ein Ymgynghorydd Risg Strategol, Zurich Insurance Ltd.

- 4.8 Mae'r ddull newydd wedi'i gymeradwyo gan Llywodraethu Corfforaethol ac mae cynllun hyfforddiant a chyfathrebu'n cael ei weithredu.
- 4.9 Rydym wedi addasu ein Canllaw Rheoli Risg i ymgorffori gwybodaeth am awch am risg, sydd bellach yn cynnwys Datganiad Awch am Risg Sir Ddinbych a Fframwaith Awch am Risg (atodiad 3). Mae hefyd yn tynnu sylw at rôl newydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, fel cydberchnogion y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- 4.10 Mae'r Datganiad Awch am Risg, y dylid ei adolygu'n flynyddol, yn darparu fframwaith i Swyddogion ac Aelodau weithio oddi fewn iddo. Mae'r datganiad yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gwirio synnwyr ein hawch am risg gyda'n blaenoriaethau corfforaethol, ein prosiectau a'n risgiau corfforaethol (a ydym yn wrth-risg neu'n awyddus am risg?).
- 4.11 Mae'r datganiad yn nodi lefel y risg y mae'r Cyngor yn barod i'w derbyn, ei goddef neu fod yn agored iddi ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar categori'r risg.
- 4.12 Mae'r tabl yn atodiad 4 yn crynhoi ein hawch am risg mewn perthynas â gwahanol agweddau ar fusnes y cyngor:
- 4.13 Fodd bynnag, dylid nodi nad yw cynnwys awch am risg yn disodli nac yn lleihau pwysigrwydd y broses adrodd ac uwchgyfeirio a nodir yn ein Canllaw Rheoli Risg.
- 4.14 Mae awch am risg wedi'i ystyried gan berchnogion risg, yn ôl yr angen, yn ystod yr adolygiad hwn. Yn y dyfodol byddwn yn dadansoddi ein risgiau yn erbyn ein hawch yn atodiad 2.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Pwrpas y Cynllun Rheoli Risg yw nodi digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r rheolaethau a'r camau a nodwyd felly'n hollbwysig i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.
- 5.2 Mae'r Datganiad Awch am Risg yn nodi awydd y Cyngor i fentro ar draws nifer o feysydd. Bydd y meysydd hyn yn effeithio ar / cael eu heffeithio gan ein blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu, monitro ac adolygu'r Canllaw Rheoli Risg yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1 Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol hon yn dogfennu'r risgiau a nodwyd a'r camau lliniaru. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar ddim un o'r nodau lles. Fodd bynnag, bydd unrhyw brosesau newydd, boed yn rai strategol neu'n rai polisi sy'n codi o ganlyniad i gamau lliniaru yn debygol o fod angen asesiad effaith lles.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1 Ceir manylion am y broses ymgynghori yn rhan 4.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau nhw?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â derbyn argymhelliad 3.1.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2 Mae Adran 7.2.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn mynnu y dylai Craffu adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn perthynas â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor prun ai gan y Cabinet neu gan ran arall o'r Cyngor.

Swyddog Cyswllt:

Arweinydd y Tîm Cynllunio a Pherfformiad Strategol,

Ffôn: 01824 708078